

Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

| | |
|------------------------------------|--|
| Gwrandawriad Mater Penodol: | Yr ail Wrandawriad Mater Penodol ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys swyddi a sgiliau a'r gadwyn gyflenwi) a Thraffig a Thrafnidiaeth |
| Dyddiad: | 8 Ionawr 2019, 9.00am i ddechrau am 9.30am |
| Lleoliad: | Gwesty Bae Trearddur, Bae Trearddur, Ynys Môn LL65 2UN |

Gwrandawiadau Mater Penodol

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i ddod i wrandawiadau mater penodol, ond byddai'n hwyluso'r broses o'u cynnal pe gallech roi gwybod i Dîm Achos yr Arolygiaeth (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) am ddymuniad i gymryd rhan cyn y gwrandawriad.

Mae gan bob Parti â Buddiant yr hawl i wneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i rym yr Awdurdod Archwilio (ExA) i reoli gwrandawiadau.

Bydd lleoliad y gwrandawriad ar agor 30 munud cyn i bob gwrandawriad ddechrau er mwyn iddo allu dechrau'n brydlon. Bydd gwrandawiadau'n gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda hon yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngedig i'r materion hyn na chynnwys pob mater posibl. Gallai'r ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gallai newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater fel y gellir eu hystyried yn briodol. Os na thrafodir mater penodol mewn gwrandawriad, ni fydd hynny'n atal archwilio'r mater hwnnw ymhellach, gan gynnwys trwy gwestiynau ysgrifenedig pellach.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnodau a bennwyd yn yr amserlen. Os bydd yn cymryd llai o amser nag a ragwelwyd i ystyried y materion, gallai'r ExA derfynu'r Gwrandawriad cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a'u hateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw Wrandawriad, mae'n bosibl y bydd angen ymestyn hyd y sesiwn y diwrnod hwnnw. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a neilltuo eraill ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig pellach.

Sylwer:

Er mwyn sicrhau bod yr agenda'n cael ei chyhoeddi cyn gwyliau'r Nadolig, fe'i lluniwyd cyn derbyn cyflwyniadau ar gyfer Terfyn Amser 3.

Gwrandawriad Mater Penodol:

Yr ail Wrandawriad Mater Penodol ar Faterion Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys swyddi a sgiliau a'r gadwyn gyflenwi) a Thraffig a Thrafnidiaeth

Agenda

1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawriad

2. Diben y Gwrandawriad Mater Penodol

- a. Ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol y Cais o ran swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi.
- b. Ystyried effaith y Cais ar rwydweithiau trafndiaeth (ffyrdd, rheilffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus) yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

3. Swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi

- a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwyntiau Partïon â Buddiant mewn perthynas â swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ers y rhai a ddatganwyd erbyn terfynau amser 2 a 3.
- b. Archwilio'r materion penodol canlynol yn ystod adeiladu a gweithredu:
 - i. y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyfleoedd hyfforddi ar Ynys Môn, yng ngogledd Cymru ac yn yr ardal ehangach;
 - ii. y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ar Ynys Môn, yng ngogledd Cymru ac yn yr ardal ehangach;
 - iii. rôl gwasanaethau lleol a'r gadwyn gyflenwi leol wrth gefnogi'r broses ddarparu; a
 - iv. busnesau presennol, gan gynnwys effeithiau ar argaeledd gweithwyr a dadleoli.
- c. Deall p'un a ellid datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y Partïon â Buddiant o ran y materion hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y gorchymyn caniatâd datblygu drafft (dDCO).

4. Traffig a Thrafnidiaeth

- a. Sefydlu p'un a fu unrhyw newid i safbwyntiau Partïon â Buddiant mewn perthynas â'r effaith ar y rhwydwaith trafndiaeth yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ers y rhai a ddatganwyd erbyn terfynau amser 2 a 3.
- b. Cael dealltwriaeth fanylach o'r canlynol:



- i. materion yn ymwneud â chynhyrchu a modelu traffig – a gytunwyd ar y model traffig? Os na, beth yn union sy'n destun dadlau?
 - ii. digonolrwydd y gwelliannau arfaethedig i briffyrdd i ymdopi â'r traffig adeiladu a ragfynegir, a diweddariad ar gynnydd y cais cynllunio ar gyfer y gwaith priffyrdd sy'n dilyn llinell bresennol y ffordd ar yr A5025;
 - iii. y rhesymeg wrth wraidd lleoli a darparu canolfan logisteg a chyfleuster parcio a theithio ar wahân a'r ddarpariaeth barcio ar draws y prosiect cyfan; a
 - iv. manteision ac anfanteision darparu canolfan logisteg a chyfleuster parcio a theithio ar wahân, gan gynnwys dewisiadau amgen a gynigiwyd.
- c. Deall p'un a ellid datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y Partïon â Buddiant o ran y materion hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y dDCO.

5. Defnyddwyr Eraill y Ffyrdd

- a. Ystyried effaith traffig ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd, gan gyfeirio'n benodol at wahanu, oedi a gwasanaethau golau glas.
- b. Deall yr effeithiau ar ddefnyddwyr difodur a pha ddarpariaeth a wnaed ar eu cyfer yn y Cais.
- c. Deall p'un a ellid datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y Partïon â Buddiant o ran y materion hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y gorchymyn caniatâd datblygu drafft (dDCO).

6. Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- a. Deall y llwybr gwyriad arfaethedig ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a ph'un a oes unrhyw ddewisiadau amgen a fyddai'n fyrrach ac yn agosach i'r arfordir ar gyfer pob cam o'r datblygiad.
- b. Deall p'un a ellid datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y Partïon â Buddiant o ran y materion hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y gorchymyn caniatâd datblygu drafft (dDCO).

7. Effeithiau Cronnol

- a. Deall cynnydd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trydedd bont y Fenai a'r goblygiadau i'r Cais.
- b. Archwilio p'un a yw effeithiau cronnool posibl traffig a allai gael ei gynhyrchu yn sgil prosiectau eraill, gan gynnwys Cysylltiad Gogledd Cymru a thrydedd bont y Fenai, wedi cael eu hystyried yn llawn.

8. Pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r Gwrandawriad

9. Diwedd y Gwrandawriad

Mynychwyr

Byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdod Archwilio pe gallai'r partïon canlynol ddod i'r gwrandawriad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu a gwneud cynrychiolaethau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar ddisgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

- Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/ Conwy County Borough Council (CCBC)
- Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police (NWP)
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- Partneriaeth Cyngorau Gogledd Ynys Môn/North Anglesey Councils Partnership (NACP)

Wylfa Newydd Nuclear Power Station Project Development Consent Order Application

Issue Specific Hearing: Second ISH on Socio-Economic Matters (including jobs and skills and supply chain) and Traffic and Transport

Date: 8 January 2019, 9.00am for 9.30am start

Location: The Trearddur Bay Hotel, Trearddur Bay, Isle of Anglesey LL65 2UN

Issue Specific Hearings

All Interested Parties are invited to attend issue specific hearings but it would assist the running of the hearings if notice could be given to the Inspectorate's Case Team (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) of a wish to participate prior to the hearing.

Each Interested Party is entitled to make oral representations at hearings. However, this is subject to the Examining Authority's (ExA's) power to control hearings.

The hearing venue will be open 30 minutes prior to the start of each hearing to enable a prompt start. Hearings will finish as soon as the ExA deems that all those present have had their say and all matters have been covered.

This agenda is for guidance only. It is not designed to be exclusive or exhaustive. The ExA may add other issues for consideration, may alter the order in which issues are considered and will seek to allocate sufficient time to each issue to allow proper consideration of them. Any lack of discussion of a particular issue at a hearing does not preclude further examination of this issue, including further written questions.

Every effort will be made to ensure that the issues will be discussed on the days that they are scheduled for. Should the consideration of the issues take less time than anticipated, the ExA may conclude the Hearing as soon as all relevant contributions have been made and all questions asked and responded to.

If there are additional matters to be dealt with or there are submissions that take a considerable amount of time at any Hearing there may be a need to continue the session for longer on the day. Alternatively it may be necessary to prioritise matters and defer others to further written questions.

Please Note:

In order to ensure publication of the agenda before the Christmas break, this has been drafted prior to receipt of submissions for Deadline 3.

Issue Specific Hearing: Second ISH on Socio-Economic Matters
(including jobs and skills and supply chain) and
Traffic and Transport

Agenda

1. Welcome, introductions, arrangements for the hearing

2. Purpose of the Issue Specific Hearing (ISH)

- a. To consider the socio-economic effects of the Application with regards to jobs, skills and the supply chain.
- b. To consider the effect of the Application on transport networks (road, rail and public rights of way) during construction, operation and decommissioning phases.

3. Jobs, skills and supply chain

- a. To establish whether there has been any change in position of the Interested Parties (IPs) regarding jobs, skills and the supply chain (both direct and indirect) since those stated at Deadlines (D) 2 and 3.
- b. To explore the following specific matters during construction and operation:
 - i. proposed arrangements for training opportunities on Ynys Môn, North Wales and the wider area;
 - ii. proposed arrangements for employment opportunities on Ynys Môn, North Wales and the wider area;
 - iii. the role of local services and the local supply chain in supporting delivery; and
 - iv. existing businesses including effects on worker availability and displacement.
- c. To understand whether any differences between the IPs on these matters could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the draft development consent order (dDCO).

4. Traffic and Transport

- a. To establish whether there has been any change in position of the IPs regarding the effect on the transport network during construction, operation and decommissioning since those stated at D2 and 3.
- b. To understand in further detail:
 - i. traffic generation and modelling matters – has the traffic model been agreed? If not, what specifically is in dispute?
 - ii. the adequacy of the proposed highway improvements to accommodate the predicted construction traffic and an



- update on the progress with the planning application for the on-line highways works on the A5025;
 - iii. the reasoning behind the location and provision of a separate logistics centre and park and ride facility and parking provision across the whole project; and
 - iv. the benefits and disbenefits of the provision of a separate logistics centre and park and ride facility including proposed alternatives.
- c. To understand whether any differences between the IPs on these matters could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the dDCO.

5. Other Road Users

- a. To consider the effect of additional traffic during construction on other road users with particular reference to severance, delay and blue light services.
- b. To understand effects on non-motorised users and what provision has been made in the Application for non-motorised users.
- c. To understand whether any differences between the IPs on these matters could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the dDCO.

6. Public Rights of Way

- a. To understand the proposed diversion route for the Welsh Coastal Path and whether there are any alternatives that would be shorter and closer to the coast for all phases of development.
- b. To understand whether any differences between the IPs on these matters could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the dDCO.

7. Cumulative Effects

- a. To understand the progress of the WG proposals for a third Menai crossing and the implications for the Application.
- b. To explore whether the potential cumulative effects of traffic that could be generated from other projects including North Wales Connection and the third Menai crossing have been fully considered.

8. Action points arising from the Hearing

9. Close of Hearing



Attendees

The ExA would find it helpful if the following parties could attend this hearing. However, this does not indicate that other parties will not be able to contribute. All Interested Parties are invited to attend and make oral representations on the matters set out in the agenda, subject to the ExA's discretion.

- Horizon Nuclear Power (the Applicant)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyngor Gwynedd/Gwynedd Council (GC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/ Conwy County Borough Council (CCBC)
- Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police (NWP)
- Llywodraeth Cymru/Welsh Government (WG)
- North Anglesey Councils Partnership (NACP)